




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Ymgynghori

Sut mae mesur cynnydd cenedl?

Cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur a yw Cymru'n cyrraedd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2015

Camau i'w cymryd: ymatebion erbyn 11 Ionawr 2016



Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ynglŷn â set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru sydd wedi'u bwriadu i fesur cynnydd tuag at gyflawni Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Dyma'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym am sicrhau bod pobl a chymunedau ledled Cymru'n meddu ar yr wybodaeth i allu cyfrannu eu barn ynglŷn â'r set newydd arfaethedig o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion drafft ar gyfer rhestr o ddangosyddion llesiant cenedlaethol a sut y gallwch gyflwyno eich barn inni.

I ddeall mwy am y Ddeddf rydym wedi paratoi ffilm animeiddiedig fer, a thaflen ar yr hanfodion sydd ar gael yma

<https://youtu.be/rFeOYlxJbmw>

www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

Sut i ymateb

Gallwch gyflwyno eich sylwadau trwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein, trwy'r e-bost neu drwy anfon copi wedi'i gwblhau o ffurflen yr ymgynghoriad i'r cyfeiriad isod.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ac mewn ieithoedd eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=en

Tudalennau gwe Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=10103

Y Gymru a Garem

www.thewaleswewant.co.uk/

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

e-bost: FGActWales@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 029 2082 5259 or 3388

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad hwn?	4
Sut fydd y dangosyddion yn cael eu defnyddio?	6
Beth ydym wedi'i wneud hyd yma?	6
Penderfynu ar y dangosyddion cenedlaethol gorau	8
Y cynigion	9
Dangosyddion eraill a drafodwyd	29
Beth yw'r camau nesaf?	30
Gwaith arall cysylltiedig	31
Atodiad A – Templed ar gyfer Dangosyddion	32

1. Ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad hwn?


Cefndir

Yn gynharach eleni fe basiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Mae a wnelo'r Ddeddf â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu i wella'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar draws cyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru er mwyn creu Cymru lewyrchus,

Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Ebrill 2015 ac mae'n sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef:

Ffigur 1 – Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru



Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Er mwyn inni gyrraedd y nodau llesiant hyn ar y cyd mae arnom angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i bawb ohonom allu gweld a yw pethau'n gwella i Gymru gyfan. Dyna pam fod y Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol¹. Mae'n rhaid i'r dangosyddion hyn gael "eu cymhwysu er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant". Gellir eu datgan ar ffurf gwerth y gellir ei fesur, neu nodwedd y gellir ei mesur, yn feintiol (e.e. rhif) neu'n ansoddol (e.e. ansawdd rhywbeth) yn erbyn y nodau llesiant. Gellir eu mesur hefyd mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

Er bod y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan a byddant yn ein galluogi i ddeall y cyfraniad a wneir gan bawb.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cynigion drafft i bennu dangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru, y gwaith hyd yma, y meini prawf yr ydym wedi bod yn gweithio arnynt i adnabod dangosyddion posibl a sut y gallwch chi chwarae rhan. Mae'r rhain i'w cael yn Adran 3 o'r ddogfen hon. Ceir crynodeb o'r berthynas rhwng y dangosyddion cenedlaethol drafft a'r saith nod llesiant yn Adran 3.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gyfle i awgrymu gwelliannau i'r dangosyddion arfaethedig neu awgrymiadau am ddangosyddion eraill.

Os ydych yn dymuno cynnig dangosydd ychwanegol rydym wedi darparu templed ichi ei gwblhau. Bydd angen ichi egluro'r rhesymau pam fod y dangosydd arfaethedig yn mesur llesiant pobl yng Nghymru'n well a pham y byddai'n disodli neu'n gwella'r dangosydd arfaethedig

¹ Caiff y gofyniad hwn ei nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gweler. www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents

presennol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y set derfynol o ddangosyddion yn gyfyngedig o ran nifer, yn gydlynol ac yn un y gall cyrff cyhoeddus ei defnyddio. Bydd cadw'r nifer yn hydrin yn helpu i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd o ran deall a yw'r saith nod llesiant yn cael eu cyrraedd. Fe'ch anogir yn gryf i gyfeirio at y meini prawf a nodir yn Adran 2.

Dan y Ddeddf mae gofyniad i osod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried y byddent o gymorth i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant. Bwriedir i'r gwaith ar y cerrig milltir gael ei wneud yn dilyn cyhoeddi'r set derfynol o ddangosyddion llesiant cenedlaethol.

1.1 Sut fydd y dangosyddion yn cael eu defnyddio?

Mae gan y dangosyddion rôl bwysig o ran helpu i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyrraedd y nodau llesiant gan Gymru gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyrraedd y saith nod llesiant, gan ddefnyddio'r dangosyddion cenedlaethol. 'Adroddiad Llesiant Blynyddol' yw'r enw ar yr adroddiad hwn, bydd y cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn ariannol yn dilyn cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol. Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae'n rhaid i'r Adroddiad Llesiant Blynyddol gael ei ystyried gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru pan fo'n paratoi ac yn cyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol'.

Bydd yr Adroddiad Llesiant Blynyddol nid yn unig yn cyflwyno ein cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant ar gyfer y boblogaeth gyfan, ond trwy gynnwys dadansoddiad ychwanegol bydd yn mesur cynnydd, lle y bo'n briodol i rai dangosyddion, ar gyfer grwpiau demograffig gwahanol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well sut y mae canlyniadau'n wahanol i grwpiau gwahanol yn y boblogaeth.

Bydd gan y dangosyddion rôl benodol hefyd gan fod yn rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru gyfeirio atynt wrth ddadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

1.2 Beth ydym wedi'i wneud hyd yma?

Dangosyddion datblygu cynaliadwy presennol

Ar hyn o bryd mae gennym set o ddangosyddion datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru, yr ydym wedi bod yn eu defnyddio i ddweud wrthym a yw Cymru'n dod yn genedl fwy cynaliadwy. Mae'r rhain yn seiliedig ar y cynllun datblygu cynaliadwy presennol, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009).

Mae datblygu'r Ddeddf, a'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru, yn diffinio'n fwy eglur o lawer sut y byddai Cymru gynaliadwy yn edrych ac felly'n ein galluogi i fynd ati'n well i fesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau. Cafodd y set ddiwethaf o ddangosyddion datblygu cynaliadwy ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf². Bydd y rhain yn cael eu disodli gan y dangosyddion cenedlaethol newydd a gynigir yn y ddogfen hon.

Y Gymru a Garem

Fel rhan o sgwrs genedlaethol 'Y Gymru a Garem', gofynnwyd i bobl drafod y Gymru yr oeddent yn dymuno'i gadael ar ôl i'w plant ac i'w hwyron a'u hwyresau. Fe wnaeth y sgwrs hon adnabod nifer o 'sylfeini' ar gyfer y dyfodol, a nodwyd yn yr adroddiad 'Y Gymru a Garem' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015³. Ystyriwyd fod y sylfeini hyn yn gyddestun defnyddiol ar gyfer deall a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y saith nod llesiant. Bwydodd y gwaith hwn i mewn i waith Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru a'r broses o ddatblygu'r dangosyddion arfaethedig. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhwydwaith eiriolwyr y dyfodol er mwyn iddynt gyfrannu eu barn ynglŷn â'r rhestr arfaethedig o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru.

² Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Cymru, 2015. Gweler www.gov.wales/statistics-and-research/sustianable-development-indicators/?lang=cy

³ Y Gymru a Garem, 2015 Gweler, www.thewaleswewant.co.uk/cy/adroddiad-y-gymru-garem

Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru

Ym mis Rhagfyr 2014 gofynnodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru⁴ roi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu'r dangosyddion cenedlaethol.

Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru ddogfen drafod⁵ i

ddechrau'r gwaith ar ddatblygu'r dangosyddion cenedlaethol. Tynnodd hyn ar dystiolaeth ryngwladol a oedd yn amlygu her dylunio dangosyddion effeithiol at y diben hwn. Roedd y papur yn nodi rhai syniadau ynghylch ystyr 'wedi'u dylunio'n dda', a hynny'n cynnwys (i) mesur y pethau cywir a (ii) eu mesur yn y ffordd gywir. Cafodd nifer o egwyddorion eu nodi dan y ddau bennawd yma, sef:

Egwyddorion ar gyfer mesur y peth cywir

Dylai'r dangosyddion fesur deilliannau.

Dylai'r deilliannau hyn daro tant gyda'r cyhoedd a bod yn bwysig iddynt, a rhaid i'r dewis ystyried y Sgwrs Genedlaethol beilot.

Dylai fod nifer cyfyngedig ohonynt: dim mwy na saith prif ddangosydd a 30 dangosydd mewn ail haen.

Dylai'r dangosyddion lunio set gydlynol, y gellir ei chyfiawnhau gan resymeg a'i fframio gan naratif am yr hyn y mae cynnydd yn ei olygu i Gymru.

Mae angen i'r deilliannau fod yn rhai lle y gellir cyflawni cynnydd sylweddol dros gyfnod tymor hwy a lle y gellir mesur cerrig milltir dros gyfnod o 5 i 15 mlynedd.

Mewn egwyddor, mae angen i'r deilliannau fod yn sensitif i benderfyniadau a wneir yng Nghymru (er nid dim ond gan gyrrff cyhoeddus) – ac, i'r graddau y bo penderfyniadau a wneir rywle arall yn holl bwysig, mae angen datgan hyn yn glir.

Lle y bo'n bosibl, ni ddylai'r deilliannau fod â pherthynas 1:1 â'r nodau, ond dylent adlewyrchu cynnydd o ran dau nod neu ragor; fodd bynnag, mae angen i'r set gyfan gefnogi'r holl nodau'n gytbwys.

Dylai cyfran sylweddol o'r deilliannau ein helpu ni i ragfynegi llesiant cenedlaethau'r dyfodol, nid dim ond sut oedd y gorffennol – fel nad dim ond deilliannau ydynt.

Dylai deilliannau ymwneud â phoblogaeth Cymru gyfan – er bod mesurau anghydraddoldeb yn gofyn am ddata wedi'i ddadgyfuno a gallent ganolbwyntio ar leiafrifoedd.

Ni ddylai penderfyniadau ynghylch deilliannau gael eu gyrru gan gyfresi dangosyddion presennol; fodd bynnag, mae'r rhain – a gwaith sy'n mynd rhagddo (gan gynnwys gwaith ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig) – yn fewnbwn defnyddiol i'r broses ddatblygu.

⁴ Cafodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru ei sefydlu ym mis Ionawr 2014. Ei nod yw gwella bywydau pobl Cymru trwy roi dadansoddiad a chyngor annibynnol, awdurdodol i Weiniogion Cymru. Fe'i cyd-ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru.

⁵ Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru: Mesur cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru: Papur trafod. Gweler www.ppiw.org.uk/files/2015/02/Mesur-cynnydd-tuag-at-gyflawni-nodau-llesiant-Cymru_Papur-trafod.pdf

Egwyddorion ar gyfer mesur yn y ffordd gywir

Cyfathrebu Effeithiol	Dylai'r hyn y mae'r dangosydd yn ei fesur allu cael ei grynhai'n fyr mewn ffordd y bydd y cyhoedd yn ei deall ar unwaith.
	Dylai'r dangosydd ganiatáu ar gyfer gallu llunio cymariaethau dros amser. Felly, dylai cymariaethau fod yn ddilys hyd yn oed wrth i bolisiau neu ddulliau casglu data newid, dylai fod ffynonellau data sicr, a dylai gwerth y dangosydd allu newid dros amser.
	Yn ddelfrydol, dylai'r dangosydd ganiatáu ar gyfer gwneud cymariaethau â lleoedd eraill ac, felly, dylai gael ei gydnabod yn rhyngwladol. ⁶
	Dylai arwyddocâd unrhyw newidiadau fod yn amlwg ar unwaith.
	Mae angen i bob cynulleidfa gredu bod y dangosydd yn mesur y deilliant yn effeithiol ac yn ddibynadwy mewn gwirionedd, a dylai grwpiau gwahanol ddeall y dangosydd yn yr un ffordd.
	Rhaid i ddangosyddion ddarparu gwybodaeth gyfredol yn ddigon aml i ganiatáu am farnu cynnydd ac ysgogi camau gweithredu priodol.
	Rhaid dewis a chynllunio dangosyddion er mwyn osgoi annog camau gweithredu sy'n gwella'r dangosydd ar draul deilliannau ehangach.
Cywirdeb	Lle y caiff data arolygon ei ddefnyddio, dylid dangos bod ymatebwyr yn rhoi atebion cyson i gwestiynau ar achlysuron gwahanol.
	Ni ddylai'r dangosyddion gael eu seilio ar feintiau sampl sy'n rhy fach ym marn ystadegwyr i gyfiawnhau casgliadau ynghylch y deilliant a fesurwyd.
	Bwriedir y bydd setiau data'r Dangosydd Cenedlaethol yn 'Ystadegau Gwladol'. Felly, lle bynnag y bo modd, dylai dangosyddion ddefnyddio Ystadegau Gwladol presennol, neu dylid o leiaf eu profi a'u canfod yn addas at ddibenion ymchwil.
Cydbwysedd	Dylai'r set gyfan gynnwys dangosyddion goddrychol yn ogystal â rhai gwrthrychol.
	Gall y set gyfan gynnwys dangosyddion sy'n seiliedig ar ddata ansoddol yn ogystal â data meintiol.
Dichonolrwydd	Mae'n well bod y data ac, yn ddelfrydol, y dangosydd ei hun yn bodoli eisoes am resymau cost, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Wrth ddatblygu eu hadroddiad mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wedi rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ers hynny ynghylch fframwaith ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol a rhestr ddrafft o ddangosyddion i'w hystyried. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn sail bwysig i ddatblygu ein cynigion ymgynghori.

Mae'r argymhellion allweddol o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Ni ddylai fod mwy na 5-6 o brif ddangosyddion;
- Dylai'r rhain gael eu tanategu gan ail haen a honno'n cynnwys hyd at 34-35 o

ddangosyddion pellach ar gyfer Cymru gyfan, gan olygu bod dim mwy na 40 o ddangosyddion cenedlaethol ar y cyfan;

- Dylai fod set ar wahân o ddangosyddion cymhariaeth i gyd-fynd â'r dangosyddion cenedlaethol, a fyddai'n mesur gwahaniaethau mewn deilliannau a fesurwyd gan rai o'r 40 o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer gwahanol rannau o Gymru.

Mae'r adroddiad llawn i'w gael ar wefan Sefydliad Materion Cyhoeddus Cymru: www.ppiw.org.uk/publications/

⁶ Er enghraifft, bydd yn ddefnyddiol cymryd sylw o ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur cynnydd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

2. Penderfynu ar y dangosyddion cenedlaethol gorau

Er mwyn ymgysylltu â phobl ynghylch y dangosyddion llesiant cenedlaethol cafodd rhestr arfaethedig o ddangosyddion ei datblygu dros yr haf gan Lywodraeth Cymru. Bu'r Comisiynwyr yng Nghymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhan o'r gwaith hwn.

Gan adeiladu ar y cyngor gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru fe sefydlon ni bedwar maen prawf hanfodol i arwain y gwaith o ddatblygu dangosyddion ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, sef:

1. Cadw'r nifer yn fach ac yn hydrin.

Roedd hyn yn golygu gweithio â nifer cychwynnol o ddim mwy na 40. Byddai hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn mesur yr agweddau pwysicaf ar lesiant a fydd yn ein helpu i fod â dealltwriaeth glir a chryno am y cynnydd yr ydym yn ei wneud, ac i wneud y set yn ddefnyddiadwy i gyrff cyhoeddus.

2. Gwneud yn siŵr eu bod yn fesurau i Gymru gyfan.

Mae hyn yn golygu na ddylent fod yn fesurau perfformiad ar gyfer unrhyw gyrff cyhoeddus. Ni ddylent ychwaith fod yn fesurau o bolisiau neu raglenni unigol. Mae hynny'n golygu mai mesurau o'r boblogaeth gyfan ydynt, sy'n canolbwyntio ar y nodau llesiant yr hoffem eu cyflawni.

Mae hyn yn golygu na ddylai'r dangosyddion fesur:

- perfformiad corff cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru);
- perfformiad gwasanaeth penodol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cynllunio); na
- pherfformiad rhaglen/polisi (e.e. Twf Swyddi Cymru).

Mae'n bwysig nodi y gall y rhesymau tu ôl gwelliant mewn dangosydd fod o ganlyniad gweithredoedd y tu allan i Gymru neu weithredoedd y tu allan i'r sector cyhoeddus, felly dylid ond ystyried y dangosyddion fel rhai sy'n adrodd stori Cymru ar ei thaith.

3. Dylent fod yn gydlynol a chydweddu â'i gilydd.

Mae'n rhaid i'r set o ddangosyddion fod yn gyfanwaith cydlynol, ac mae'n rhaid i'r dangosyddion ddangos eu cyfraniad tuag at sawl nod llesiant.

4. Mae'n rhaid i'r dangosyddion daro tant gyda'r cyhoedd.

Dylent adrodd stori glir wrth y darllenydd sy'n dangos a yw Cymru'n Gymru lewyrchus, yn Gymru gydnerth, yn Gymru sy'n fwy cyfartal, yn Gymru iachach, yn Gymru o gymunedau cydlynus, yn Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac yn Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol hefyd o'r 5 ffordd allweddol o weithio a nodir yn y Ddeddf a ddylai oleuo'r dangosyddion y byddwn yn eu dewis. Y 5 ffordd o weithio yw:

- **Integreiddio** – A yw'r dangosydd yn ein helpu i fesur mwy nag 1 nod llesiant?
- **Atal** – A yw'r dangosydd yn dweud wrthym a ydym yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y problemau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru?
- **Y tymor hir** – Os yw'r dangosydd hwn yn cael ei fesur dros gyfnod hir, a yw'n adrodd stori eglur o newid? A all ein helpu i ddadansoddi tueddiadau yn y dyfodol? Os mai dim ond mesur newid yr ydym yn disgwyl ei weld dros y 3-5 mlynedd nesaf y mae, sut all ddylanwadu ar brosesau penderfynu?
- **Cydlafurio** – A ellir defnyddio'r dangosydd i ysgogi trafodaeth gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol?
- **Cynnwys** – A yw'r dangosydd yn mesur y boblogaeth gyfan?

3. Y cynigion

O'r gwaith hyd yma a'r meini prawf allweddol a nodwyd yn yr adran flaenorol rydym wedi cynnig rhestr o 40 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Wrth ddatblygu'r rhestr arfaethedig cynhwyswyd rhai dangosyddion y byddai angen eu datblygu ymhellach pe baent yn cael eu cytuno. Rydym wedi mabwysiadu'r dull hwn fel nad yw ffynonellau data presennol yn cyfyngu arnom. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd datblygiad a chost bosibl y dangosyddion yn cael eu hystyried ochr yn ochr â meini prawf eraill, gan gynnwys adborth o'r ymgynghoriad, i benderfynu pa mor ddichonadwy ydynt.

Fersiwn gryno

O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod y dangosyddion yn mesur cynnydd wrth fynd ar drywydd nifer o nodau llesiant, cyhoeddwyd crynodeb dwy-dudalen o'r dangosyddion fel dogfen ar wahân ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, sydd i'w weld dros y dudalen.

Wrth ddatblygu'r dangosyddion arfaethedig, ystyriwyd pa nodau llesiant yr oeddent yn fwyaf perthnasol ar eu cyfer. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau bod y dangosyddion cenedlaethol yn set gydlynol. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn

yn fawr wrth ystyried a ydym wedi cyflawni hyn (gweler cwestiwn ymgynghori 1).

Y rhestr fanwl

Ar y tudalennau canlynol fe welwch fanylion pob un o'r 40 o ddangosyddion yr hoffem gael eich barn arnynt. Rhoddwyd rhif (1-40) i bob dangosydd ac mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth ichi am:

- Yr hyn a gaiff ei fesur;
- Sut y bydd yn cael ei fesur;
- Ffynhonnell y data yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio;
- Y rhesymeg a'r ymresymiad a oedd yn sail i ddewis y dangosydd.

Yn achos rhai o'r dangosyddion hyn ceir materion penodol yr hoffem gael eich barn ynglŷn â hwy yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi ochr yn ochr â'r dangosydd arfaethedig ar dudalennau 16-36. At ddibenion yr ymgynghoriad dylid nodi bod yr holl ddangosyddion yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r rhifau wedi'u cynnwys er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt ac am y rheswm hwnnw yn unig.

Y Gymru a Garem

Ein diben cyffredin – y saith nod llesiant ar gyfer Cymru

Cymru Lewyrchus (1)	Cymru Gydnerth (2)	Cymru Iachach (3)	Cymru sy'n Fwy Cyfartal (4)	Cymru o Gymunedau Cydlynus (5)	Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu (6)	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang (7)
----------------------------	---------------------------	--------------------------	------------------------------------	---------------------------------------	--	--

Y ffordd y byddwn yn mesur cynnydd

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Arfaethedig		1	2	3	4	5	6	7
01	Babanod a enir yn iach o ran eu pwysau							
02	Disgwyliad oes iach i bawb							
03	Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw							
04	Plant ifanc sy'n datblygu'r sgiliau iawn							
05	Pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau							
06	Poblogaeth addysgiedig a medrus							
07	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant							
08	Pobl mewn gwaith							
09	Gweithlu cynhyrchiol							
10	Busnesau arloesol							
11	Lefelau incwm aelwydydd							
12	Pobl sy'n byw mewn tlodi							
13	Pobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd							
14	Pobl sy'n fodlon yn eu gwaith							
15	Pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi							
16	Naws cymuned							
17	Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol							
18	Pobl sy'n gwirfoddoli							
19	Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at gyfleusterau a gwasanaethau							
20	Pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau							
21	Pobl sy'n teimlo'n unig							
22	Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb							
23	Ansawdd tai							
24	Lefelau digartrefedd							
25	Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth							
26	Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol							
27	Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon							

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Arfaethedig		1	2	3	4	5	6	7
28	Gofalu am ein treftadaeth ddiwylliannol							
29	Eiddo mewn perygl o ddiodeff llifogydd							
30	Effeithlonrwydd ynni adeiladau							
31	Allryiadau nwyon tŷ gwydr							
32	Ecosystemau iach							
33	Amgylchedd naturiol fioamrywiol							
34	Ansawdd y dŵr							
35	Ansawdd yr aer							
36	Ansawdd y pridd							
37	Gwastraff na chaiff ei ailgylchu							
38	Ôl troed byd-eang							
39	Dinasyddion gweithgar ar lefel byd-eang							
40	Cyfrifoldebau rhyngwladol							

Y 5 ffordd o weithio – Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

Y tymor hir	Atal	Integreiddio	Cydlafurio	Cynnwys
-------------	------	--------------	------------	---------

Cwestiynau ymgynghori

Byddwn yn gofyn 17 o gwestiynau ymgynghori i gyd. Mae pump o'r rhain yn gwestiynau cyffredinol; mae'r gweddill yn gwestiynau am ddangosyddion penodol yr hoffem gael barn bellach ynglŷn â hwy.

Mae'r cwestiynau ymgynghori cyffredinol fel a ganlyn:

Cwestiwn 1	Ydych chi'n meddwl bod y set arfaethedig, yn ei chyfanrwydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant? Os nad ydych, rhowch esboniad.	Cytuno'n Gryf Cytuno Anghytuno Anghytuno'n Gryf
Cwestiwn 2	A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig y gellir eu gwella yn eich tyb chi? Os oes, rhestrwch y rhai y gellir eu gwella yn eich tyb chi. Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 wrth gynnig gwelliant.	Oes / Nac oes
Cwestiwn 3	A oes unrhyw ddangosyddion arfaethedig na ddylid eu cynnwys yn eich tyb chi? Os oes, rhestrwch y rhai na ddylid eu cynnwys yn eich tyb chi. Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 wrth gynnig dileu dangosydd.	Oes / Nac oes
Cwestiwn 4	A oes dangosyddion newydd y dylid eu cynnwys yn eich tyb chi? Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd. Byddem yn awgrymu eich bod yn ystyried y meini prawf a nodir yn Adran 2 wrth gynnig dangosydd newydd.	Oes/ Nac oes
Cwestiwn 5	Sut ydych chi'n meddwl y dylem gyfleu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i bobl Cymru?	

01	Babanod a enir yn iach o ran eu pwysau	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Nifer y genedigaethau byw â phwysau geni islaw 2,500g.							
Ffynhonnell	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae cysylltiadau cryf rhwng pwysau geni isel a chanlyniadau iechyd gwaeth ac amddifadedd yn ddiweddarach mewn bywyd.</p> <p>Cynigiwyd y dangosydd gan ei fod yn helpu i ragfynegi llesiant cenedlaethau'r dyfodol, nid dim ond yr hyn sydd eisoes wedi digwydd. Hefyd gall ystod eang o sefydliadau ddylanwadu ar y cynnydd ar gyfer y dangosydd hwn.</p>							

02	Disgwyliad oes iach i bawb	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y bwlch mewn disgwyliad oes iach adeg geni rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus.							
Ffynhonnell	Iechyd Cyhoeddus Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae disgwyliad oes iach adeg geni yn fesur safonol sy'n cynnwys ystod eang o ganlyniadau iechyd. Fe'i defnyddir gan sefydliadau megis Sefydliad Iechyd y Byd.</p> <p>Caiff disgwyliad oes iach ei ffafrio'n fwy na disgwyliad oes gan nad yw gwelliannau mewn disgwyliad oes o bosibl yn golygu gwelliannau mewn blynyddoedd o iechyd da. Mae anghydraddoldebau yn y canlyniad hwn yn arbennig o drawiadol ac awgrymir bod gwybodaeth am y rhain yn cael ei chasglu ochr yn ochr â'r lefelau cyffredinol o ddisgwyliad oes iach.</p>							

03	Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r oedolion (16+ oed) sydd â phedwar neu bum ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	Mae'r dangosydd hwn yn mesur i ba raddau y mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw ac a yw eu hymddygiadau'n effeithio ar eu hiechyd. Mae'n well gennym y mesur hwn na mesurau sy'n ymwneud â gweithgareddau/ymddygiadau unigol, megis gweithgarwch corfforol rheolaidd a lefelau ysmegu, gan ei fod yn darparu darlun cyflawn o ymddygiadau iach y mae gan unigolion y potensial i wella arnynt. Ar ben hynny, mae tystiolaeth dda bod yr ymddygiadau hyn yn ffactorau risg pwysig ar gyfer clefydau a marwolaeth.							
Mae'r dangosydd cyfansawdd hwn yn mesur i ba raddau y mae pobl yn byw bywyd cwbl iach, ac i ba raddau y mae ganddynt sawl ymddygiad sy'n achosi risg i'w hiechyd. Cynigir bod hwn yn cael ei fesur yn ôl y ganran o'r bobl sy'n dangos pedwar neu fwy o'r pum ymddygiad (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).								
Cwestiwn 6	Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o fesur y dangosydd pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw? Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod Os nad ydych, sut ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd hwn gael ei fesur?							
Mae sawl ffynhonnell ar gael y gellid eu defnyddio i gael mesur cyfatebol ar gyfer plant, megis yr arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant o Oedran Ysgol neu'r Arolwg Cenedlaethol newydd.								
Cwestiwn 7	Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys dangosydd tebyg o ddewis ffyrdd iach o fyw ar gyfer plant? Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod Os ydych chi, pa ymddygiadau/dewisiadau ydych chi'n meddwl dylid eu cynnwys ar gyfer plant?							

04	Plant ifanc sy'n datblygu'r sgiliau iawn	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	I ddechrau, y ganran o'r plant mewn dosbarthiadau Derbyn sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran eu datblygiad. I'w ddisodli gan fesur ar gyfer plant 2 neu 3 oed unwaith y bydd data ar gael yn gyson ledled Cymru.							
Ffynhonnell	Ar gyfer y dangosydd cychwynnol: Asesiad Sylfaenol y Cyfnod Sylfaen, Llywodraeth Cymru.							
Rhesymeg	Mae tystiolaeth yn awgrymu bod datblygiad yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig i ganlyniadau iechyd ac addysg, ac i ganlyniadau bywyd yn ddiweddarach. Cynigiwyd y dangosydd hwn gan y bydd yn mesur pa mor dda yr ydym yn galluogi ein plant o'u geni i ffynnu yn yr ysgol a thu hwnt. Caiff hwn ei ystyried yn ddangosydd blaenllaw ar gyfer addysg yn y dyfodol ac, yn eu tro, canlyniadau economaidd.							

05	Pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	<p>I ddechrau, y ganran o'r disgyblion 15 oed sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2".⁷ Mae hwn yn mesur cyfanswm y cymwysterau sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU Gradd A*-C gan gynnwys un mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg ac un mewn Mathemateg.</p> <p>Wrth fesur y dangosydd hwn byddwn yn adrodd ar y gwahaniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) a'r rhai nad ydynt yn gymwys.</p> <p>I'w ddisodli gan y "sgôr pwyntiau wedi'i chapio", a gyfrifir gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau gan bob disgybl 15 oed o 2017.</p>							
Ffynhonnell	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae cyflawni canlyniadau addysgol yn yr ysgol yn rhagfynegydd cryf ar gyfer canlyniadau cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol.</p> <p>Er y dylai ein dyhead ymwneud â chodi canlyniadau addysgol yn ddefnyddol y tu hwnt i lefel 2, cynigir y dangosydd hwn i sicrhau ein bod yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn cael eu gadael ar ôl trwy beidio â chyflawni lefel benodol o ran eu cyrhaeddiad. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried anghydraddoldebau rhwng yr aelwydydd tlotaf a gweddill y boblogaeth trwy adrodd ar y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad yn ôl sefyllfa disgyblion o ran bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu beidio.</p>							

06	Poblogaeth addysgiedig a medrus	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel 3 neu uwch (hynny yw Safon Uwch, Prentisiaeth neu gymhwyster cyfwerth), a'r rhai â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch (cymhwyster Addysg Uwch neu gymhwyster cyfwerth).							
Ffynhonnell	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.							
Rhesymeg	Mae tystiolaeth yn dangos bod sgiliau a chymwysterau'n benderfynydd allweddol ar gyfer canlyniadau economaidd. Mae cymwysterau'n gysylltiedig â'r tueddiad i fod mewn cyflogaeth a'r tebygolrwydd o ennill cyflogau uwch. Mae cymwysterau rhieni hefyd yn gysylltiedig â'r canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.							

⁷ Lefel 2 yn ôl y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

⁸ Lefelau 3 a 4 yn ôl Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

07	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Mesurau blynyddol o'r bobl Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.							
Ffynhonnell	Arolwg o'r Llafurlu/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.							
Rhesymeg	<p>Mae tystiolaeth yn dangos bod peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am gyfnod maith yn gysylltiedig â chanlyniadau economaidd a chanlyniadau iechyd negyddol a all gael eu trosglwyddo i genedlaethau dilynol.</p> <p>Cynigir bod y dangosydd hwn yn canolbwyntio ar wahanol grwpiau oedran yn enwedig grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, er nad oes gan bobl mewn grwpiau oedran hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gysylltiad agos â throsglwyddo anfantais i genedlaethau'r dyfodol, rydym yn dymuno sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol o bobl hŷn sydd o dan oedran ymddeol yn cyfrannu at y farchnad lafur os ydynt yn dymuno.</p>							

08	Pobl mewn gwaith	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oedran gweithio yn ôl diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO).							
Ffynhonnell	Arolwg o'r Llafurlu/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.							
Rhesymeg	<p>Mae'r lefel gyflogaeth yn ddangosydd allweddol ar gyfer llesiant economaidd a llesiant ehangach cenedlaethau'r presennol gan gynnwys iechyd a llesiant goddrychol. Mae tystiolaeth yn awgrymu hefyd bod cyflogaeth rhieni'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant plant trwy gydol eu hoes.</p> <p>Caiff y gyfradd gyflogaeth ei ffafrio'n fwy na'r gyfradd ddiweithdra oherwydd er bod gan y ddau fesur eu cryfderau a'u gwendidau, y gyfradd gyflogaeth yw'r dangosydd unigol gorau ar gyfer perfformiad y farchnad lafur. Mae cyfradd gyflogaeth uchel yn agwedd allweddol ar lewyrch economaidd. Hefyd, mae bod mewn cyflogaeth yn gysylltiedig â lefelau uwch o iechyd a llesiant, ac mae cyflogaeth rhieni'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell i blant dros y tymor hir.</p>							

09	Gweithlu cynhyrchiol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Cynhyrchiant llafur: Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU).							
Ffynhonnell	Cyfrifon Cenedlaethol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.							
Rhesymeg	<p>Mae cynhyrchiant yn ddangosydd safonol ar gyfer perfformiad economaidd ac yn benderfynydd allweddol ar gyfer llewyrch, yn bennaf trwy ei gysylltiad â chyflog.</p> <p>Er y gallai cynhyrchiant yr holl ffactorau fod yn fesur mwy priodol na chynhyrchiant llafur, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar lefel Cymru ac mae'n annhebygol o fod ar gael yn y dyfodol agos.</p>							

10	Busnesau arloesol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y gyfran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi (%).							
Ffynhonnell	Arolwg Arloesi Cymunedol, Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.							
Rhesymeg	<p>Gan fod busnesau arloesol yn debygol o fod yn hyblyg, mae'r mesur hwn yn rhoi arwydd o lewyrch parhaus.</p> <p>Er bod mesurau gwrthrychol eraill o arloesi, megis cynhyrchiant yr holl ffactorau ac arian sy'n cael ei wario ar Ymchwil a Datblygu, wedi cael eu hystyried, mae'r wybodaeth naill ai'n anodd i'w chael ar gyfer Cymru neu'n gyfyngedig o ran ei chwmpas.</p>							

11	Lefelau incwm aelwydydd	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Incwm Gwario Gros y pen.							
Ffynhonnell	Incwm Gwario Gros Rhanbarthol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.							
Rhesymeg	<p>Incwm Gwario Gros Aelwydydd yw swm yr arian sydd gan yr holl unigolion sy'n byw mewn aelwydydd i'w wario ar ôl trethi a chyfraniadau cymdeithasol. Hwn yw'r mesur gorau sydd ar gael o lesiant materol ac mae'n fesur o'r canlyniadau economaidd i unigolion a llewyrch yr economi.</p> <p>Gan y gall codiadau ymhlith yr enillwyr uchaf yn unig ddylanwadu ar incwm cymedrig aelwydydd, gall fod yn well defnyddio incwm canolrifol aelwydydd i osgoi'r effeithiau hyn. Fodd bynnag, rydym yn cynnig defnyddio incwm cymedrig aelwydydd oherwydd argaeledd yr wybodaeth.</p>							

12	Pobl sy'n byw mewn tlodi	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Aelwydydd mewn tlodi incwm cymharol, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.							
Ffynhonnell	Set ddata cartrefi islaw'r incwm cyfartalog, Yr Adran Gwaith a Phensiynau.							
Rhesymeg	<p>Mae tlodi'n achosi canlyniadau addysgol, canlyniadau iechyd a chanlyniadau ymddygiadol gwaeth i unigolion a bydd gostwng lefelau tlodi incwm yn cyfrannu at ystod eang o nodau, gan gynnwys lleihau anghydraddoldebau.</p> <p>Mae aelwydydd mewn tlodi incwm cymharol yn ddangosydd safonol ar gyfer tlodi incwm. Fodd bynnag, gan fod tlodi'n amlhaenog, cynigir dangosydd ychwanegol ar amddifadedd sylweddol.</p>							

13	Pobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol a ddefnyddir i lunio mesur o'r ganran o'r aelwydydd sydd mewn amddifadedd sylweddol.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Gall amddifadedd sylweddol, sy'n mesur a yw aelwydydd yn gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau angenrheidiol, effeithio ar ganlyniadau addysgol, canlyniadau iechyd a chanlyniadau ymddygiadol.</p> <p>Cynigir mesur o amddifadedd sylweddol gan ei fod yn amlygu canlyniadau tlodi hirdymor i aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol fyrdymor.</p>							

14	Pobl sy'n fodlon yn eu gwaith	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y gyfran o'r bobl mewn gwaith sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae tystiolaeth yn dangos bod bodlonrwydd ar waith yn cyfrannu at lesiant cyffredinol.</p> <p>Cafodd dangosyddion eraill posibl yn y maes hwn, megis lefelau sgiliau a chyflog, eu diystyru ar y sail bod bodlonrwydd pobl ar eu gwaith yn fesur mwy cynhwysfawr gan adlewyrchu'r ffaith bod pobl yn dewis gwaith sy'n diwallu eu hanghenion amrywiol.</p>							

15	Pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae perthynas uniongyrchol rhwng bodlonrwydd pobl ar yr ardal leol y maent yn byw ynddi a'u lefelau llesiant ar y cyfan.</p> <p>Er bod gwahanol agweddau ar yr hyn sy'n gwneud cymuned ddeniadol, megis mynediad at fannau gwyrdd, wedi cael eu hystyried teimlwyd bod mesurau'n seiliedig ar y rhain yn rhy gul.</p>							

16	Naws cymuned	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r pobl, pan ofynnir iddynt, sy'n cytuno eu bod yn perthyn i ardal, bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a hefyd eu bod yn trin ei gilydd â pharch.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae naws cymuned yn ddangosydd allweddol ar gyfer llesiant. Mae ymchwil wedi dangos bod perthyn i gymdogaeth yn bwysig i lesiant personol, a hefyd i'r gymuned ehangach gan fod pobl yn fwy tebygol o fyw, gweithio a buddsoddi mewn ardal lle maent yn teimlo'u bod yn perthyn.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i gynnwys ymddiriedaeth fel rhan o'r dangosydd arfaethedig hwn; fodd bynnag cafodd yr elfen hon ei diystyru gan fod ymddiriedaeth yn bwydo i mewn i'r mesur arfaethedig ar gyfer unigrwydd.</p>							

17	Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu hardal leol.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae tystiolaeth yn dangos bod y gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol yn ffactor pwysig o ran gwella llesiant person.</p> <p>Roedd yn well gennym y mesur o ganfyddiadau pobl am eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol na mesurau o nifer y pleidleiswyr a lefelau'r ymddiriedaeth yn y Llywodraeth gan fod yr wybodaeth am y mesurau hyn yn gyfyngedig ar lefel leol.</p>							

18	Pobl sy'n gwirfoddoli	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y gyfran o'r bobl sy'n gwirfoddoli.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	Gall gwirfoddoli chwarae rhan yn llesiant person. Mae gwirfoddoli hefyd yn agwedd ar gyfalaf cymdeithasol, lle mae lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol yn gysylltiedig ag iechyd gwell, cyrhaeddiad addysgol uwch, canlyniadau cyflogaeth gwell, a chyfraddau troseddau is.							

19	Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at gyfleusterau a gwasanaethau	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Mesur goddrychol o fodlonrwydd pobl ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Heb ei ddatblygu eto.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Dylanwadir yn uniongyrchol ar allu pobl i fyw'r bywydau y maent yn dymuno'u byw gan eu gallu i gael at y pethau y mae eu hangen ar gyfer bywyd beunyddiol.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i fesur gwrthrychol o allu pobl i gael at wasanaethau fel a ddefnyddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Fodd bynnag, roedd yn well gennym y mesur goddrychol a gynigiwyd am ei fod yn ystyried pobl sy'n byw mewn ardaloedd llai cysylltiedig ond sy'n teimlo'n fodlon ar eu gallu i gael at wasanaethau a chyfleusterau ac i'r gwrthwyneb hefyd.</p>							

20	Pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol: gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio (pob dull cludiant).							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae teimladau pobl o ddiogelwch yn ffactor pwysig yn llesiant person ac maent yn arbennig o bwysig i bobl â lefelau llesiant isel.</p> <p>Roedd yn well gennym y mesur arfaethedig na mesur sy'n ymwneud â theimlo'n ddiogel rhag risgiau penodol, megis llifogydd neu dân, gan fod teimlad ei fod yn darparu darlun ehangach i ddangos a yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.</p>							

21	Pobl sy'n teimlo'n unig	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Graddfa unigrwydd De Jong Gierveld.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae unigrwydd yn ysgogydd pwysig ar gyfer llesiant isel ac mae hefyd yn broblem a all fod yn cynyddu yn sgîl newidiadau mewn cymdeithas a llai o ryngweithiadau personol. Mae'n fater sy'n berthnasol i'r boblogaeth gyfan ond gall fod yn arbennig o berthnasol i rai grwpiau yn y boblogaeth, er enghraifft pobl hŷn.</p> <p>Mae'n well gennym y dangosydd arfaethedig na mesurau eraill posibl o unigrwydd, megis a oes gan bobl ffrindiau agos a theulu, gan fod ymchwil wedi dangos nad yw'r rhain yn perfformio'n dda fel dangosyddion gydag ychydig o newid dros amser.</p>							

22	Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	I'r rhai sy'n 16 oed neu drosodd, llesiant meddyliol yn ôl Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS). Y mesuriad i gael ei gadarnhau ar gyfer plant.							
Ffynhonnell	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru. Plant: i'w gadarnhau.							
Rhesymeg	Mae llesiant meddyliol yn rhan hanfodol o iechyd a llesiant sy'n effeithio ar sawl agwedd ar fywyd. Mae hefyd yn gysylltiedig ag amddifadedd gyda phobl yn byw mewn ardaloedd mwy amddifadus ar y cyfan yn dweud bod ganddynt lesiant meddyliol gwaeth. Cynigiwyd y dangosydd hwn gan ei fod yn un o'r agweddau ar lesiant goddrychol ynghyd ag unigrwydd, teimladau o ddiogelwch a pherthyn i gymuned.							

23	Ansawdd tai	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon yn ôl y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai.							
Ffynhonnell	Data a gesglir yn flynyddol ynghylch Peryglon a Thrwyddedau Tai, Llywodraeth Cymru oni bai fod ffynonellau data mwy priodol yn cael eu datblygu yn y dyfodol.							
Rhesymeg	Mae tai o ansawdd gwael yn elfen allweddol o amddifadedd, ac yn cael effaith fawr ar iechyd. Mae tai o ansawdd da, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn gwella iechyd preswylwyr a byddant o fudd i'r amgylchedd ehangach. Caiff ansawdd tai ei bennu gan nifer o ffactorau gan gynnwys nifer y peryglon sy'n digwydd, cyflwr a defnyddio ynni'n effeithlon. Gan nad oes dangosydd cyfansawdd ar hyn o bryd mewn perthynas ag ansawdd tai ar gyfer pob math o ddeiliadaeth cynigir bod y dangosydd hwn yn canolbwyntio ar beryglon a geir yn y cartref fel arwydd o'r tai o'r ansawdd gwaethaf.							
Mae tai o ansawdd gwael yn elfen allweddol o amddifadedd, ac yn cael effaith fawr ar iechyd. Maent felly'n cael effaith sylweddol ar lesiant plant ac oedolion. Fodd bynnag, gan nad oes dangosydd ar gyfer ansawdd tai y cytunwyd arno ac sy'n berthnasol i bob math o ddeiliadaeth ar hyn o bryd, cynigir bod y dangosydd yn canolbwyntio ar gartrefi sydd heb beryglon, sy'n elfen allweddol o dai o ansawdd da.								
Cwestiwn 8	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fesur cartrefi sydd heb beryglon fel dangosydd ar gyfer ansawdd tai? Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod Os nad ydych, darparwch ddangosydd arall trwy gwblhau'r templed a ddarparwyd.							

24	Lefelau digartrefedd	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Nifer yr aelwydydd digartref am bob 1,000 o aelwydydd.							
Ffynhonnell	Data ynghylch Digartrefedd Statudol gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae digartrefedd yn un o'r mathau mwyaf eithafol o allgau cymdeithasol. Mae aelwydydd digartref yn fwy tebygol o ddiodeff problemau gyda'u hiechyd corfforol ac iechyd meddwl.</p> <p>Mae'n well gennym ddangosydd ar gyfer aelwydydd digartref nag ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd, yr ystyrir ei fod yn fath mwy eithafol o ddigartrefedd nag unrhyw fath arall. Y rheswm dros hyn yw problemau o ran cadernid ac argaeledd gwybodaeth am bobl sy'n cysgu ar y stryd.</p>							
Mae digartrefedd yn un o'r mathau mwyaf eithafol o allgau cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn gofyn a ddylai'r dangosydd hwn ganolbwyntio ar aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref ynteu'r rhai a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref.								
Cwestiwn 9	<p>Ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref? Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod</p> <p>Os nad ydych, rhowch y rhesymau dros eich ymateb.</p>							

25	Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r bobl (16+ oed) sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.							
Ffynhonnell	Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Er mwyn sicrhau bod Cymru'n cynnal diwylliant bywiog ac yn gwarchod ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'n bwysig bod pobl yn bresennol ac yn cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn rheolaidd.</p> <p>Roedd yn well gennym y mesur arfaethedig ar gyfer presenoldeb a chyfranogi gan fod presenoldeb ar ei ben ei hun yn cael ei ystyried yn rhy oddefol.</p>							
Er mwyn sicrhau bod Cymru'n cynnal diwylliant bywiog ac yn gwarchod ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'n bwysig bod cyfranogiad yn y celfyddydau ac mewn diwylliant ac ymgysylltiad ag asedau treftadaeth yn uchel. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn o ran pa weithgareddau y dylid eu cynnwys wrth fesur y dangosydd hwn.								
Cwestiwn 10	Pa fath o weithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ddylai gael eu mesur mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn eich tyb chi?							

26	Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r oedolion sy'n siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg ac yn siarad Cymraeg yn feunyddiol a'r ganran o'r plant sy'n rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref.							
Ffynhonnell	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru. Plant: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.							
Rhesymeg	Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu mae angen iddi gael ei defnyddio gan y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg. Dylai defnydd cynyddol o'r iaith ddynodi bod siaradwyr Cymraeg yn ennill sgiliau gwell ac yn cael mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau beunyddiol. Mae'n well gennym y mesur arfaethedig na mesur o'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg, i ddangos cynnydd o ran sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. Cynigir hefyd y dylid mesur plant yn benodol gan ei bod yn dra hysbys bod caffael a defnyddio sgiliau iaith yn gynnar iawn yn allweddol i gynaliadwyedd iaith.							
Dylai defnydd cynyddol o'r Gymraeg ddynodi bod siaradwyr Cymraeg yn caffael sgiliau gwell a mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau beunyddiol. Felly cynigir bod y dangosydd yn mesur defnydd yn hytrach na gallu yn unig.								
Cwestiwn 11	Ydych chi'n cytuno y dylem ganolbwyntio ar y rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn hytrach nag ar y rhai sy'n gallu siarad yr iaith? Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod Os nad ydych, rhowch y rhesymau dros eich ymateb.							

27	Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, wedi'i fesur ar wahân ar gyfer plant ac oedolion.							
Ffynhonnell	Oedolion: Arolwg Cenedlaethol Cymru. Plant: Arolwg Chwaraeon Cymru ar Chwaraeon Ysgol.							
Rhesymeg	Mae cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon yn cyfrannu at Gymru iachach a llesiant meddyliol gwell. Trwy annog pobl o bob oed a phob rhan o'r boblogaeth i gyfranogi byddwn yn lleihau anghydraddoldebau o ran cyfranogiad mewn chwaraeon ac yn cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal a chymunedau mwy cydlynus.							

28	Gofalu am ein treftadaeth ddiwylliannol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Data ynghylch gwarchod asedau treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys casgliadau, safleoedd, adeiladau a lleoedd, ac ynghylch cael mynediad atynt a'u gwella.							
Ffynhonnell	CADW a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae treftadaeth ddiwylliannol yn cyfrannu at lesiant personol trwy ddwyn manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i unigolion ac i gymunedau.</p> <p>Mae pobl yn cael budd o dreftadaeth trwy gyfranogi mewn gweithgareddau treftadaeth, cael mynediad at asedau treftadaeth a hefyd trwy fwynhau, byw a gweithio mewn lleoedd hanesyddol a reolir yn dda. Er mwyn sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei chynnal (ei bod yn gydnerth) ac yn hygyrch (Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang) mae angen inni fesur pa mor dda yr ydym yn gwneud fel gwlad o ran gwella, rheoli a gofalu am ein treftadaeth.</p>							

29	Eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr.							
Ffynhonnell	Cyfoeth Naturiol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Gall perygl uwch o lifogydd effeithio ar safonau byw a chymunedau mewn nifer o ffyrdd. Hefyd, gall llifogydd effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, os nad yw'r perygl yn cael ei leihau gymaint ag a ellir gydag effeithiau dilynol ar iechyd a llesiant meddyliol.</p> <p>Cynigir nifer yr unedau eiddo sydd mewn perygl o lifogydd gan nad dim ond perygl llifogydd i gartrefi sy'n effeithio ar lesiant ond hefyd y perygl i fusnesau a gwasanaethau hanfodol eraill. Ar ben hynny mae'r mesur arfaethedig yn canolbwyntio ar nifer yr unedau eiddo yn hytrach na'r ganran o'r unedau eiddo oherwydd anhawster cynhyrchu amcangyfrif cadarn o'r holl unedau eiddo.</p>							

30	Effeithlonrwydd ynni adeiladau	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	<p>Adeiladau preswyl: Y ganran o'r unedau eiddo neu anheddau sydd uwchlaw sgôr y cytunwyd arni yn y Weithdrefn Asesu Safonol.</p> <p>Adeiladau amhreswyl: I'w ddatblygu.</p>							
Ffynhonnell	Data gweinyddol Tystysgrifau Perfformiad Ynni oni bai fod ffynonellau data mwy priodol yn cael eu datblygu yn y dyfodol.							
Rhesymeg	<p>Trwy wella effeithlonrwydd ynni adeiladau byddwn yn lleihau'r galwadau ar ein cyflenwad ynni, gan felly gefnogi Cymru sy'n fwy cydnerth ac yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae cysylltiad hefyd rhwng effeithlonrwydd ynni cartrefi ac iechyd y bobl sy'n byw ynddynt a'u risg o dlodi tanwydd.</p> <p>Cynigiwyd y dangosydd gan fod effeithlonrwydd ynni anheddau nid yn unig o gymorth i fesur ansawdd tai yng Nghymru, ond hefyd yn rhoi arwydd o effeithlonrwydd y seilwaith o ran defnyddio adnoddau.</p>							

31	Allyriadau nwyon tŷ gwydr	1	2	3	4	5	6	7

Wedi'i fesur yn ôl Allyriadau nwyon tŷ gwydr (yr union fesur i'w benderfynu).

Ffynhonnell Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol.

Rhesymeg Mae hwn yn ddangosydd amgylcheddol allweddol ac yn un o brif ysgogiadau'r newid yn yr hinsawdd. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn rhoi arwydd pa mor lewyrchus yw Cymru a pha mor gyfrifol yw Cymru ar lefel fyd-eang.
Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ddangosydd ar gyfer cynhyrchu ynni. Fodd bynnag, gan fod tanwyddau ffosil yn ffactor sy'n cyfrannu at allyriadau ar y cyfan fe ddewiswn ni ddangosydd lefel-uchel ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr yn lle hynny.

Bydd ystod eang o ffactorau sy'n ymwneud â busnesau, defnyddio adnoddau'n effeithlon, rheoli tir a choetiroedd yn gynaliadwy, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwastraff yn effeithio ar y dangosydd hwn. Fodd bynnag, mae sawl ffordd y gellir ei fesur.

Cwestiwn 12 Pa ddull ddylid ei ddefnyddio i fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr?
A. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru.
Wedi'i fesur yn ôl: Rhestr sy'n seiliedig ar gynhyrchu, wedi'i fesur mewn MtCO₂.
B. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru.
Wedi'i fesur yn ôl: Rhestr sy'n seiliedig ar ddefnydd gan ddefnyddwyr terfynol, ar sail y DU yn unig, wedi'i fesur mewn MtCO₂.
C. Dangosydd ôl troed carbon lle mae allyriadau a gynhyrchir yng Nghymru (A) yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r allyriadau corfforedig sy'n gysylltiedig â defnydd (gan drigolion yng Nghymru) o nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd yn rhyngwladol.
Eglurwch pam yr oeddech yn ffafrio'r dull a ddewiswyd gennych.

32	Ecosystemau iach	1	2	3	4	5	6	7

Wedi'i fesur yn ôl I'w gytuno.

Ffynhonnell I'w ddatblygu; bydd hwn yn tynnu ar waith yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Rhesymeg Mae ecosystemau iach yn sylfaenol i'n lles. Maent yn rhoi bwyd, awyr a dŵr glân i ni, ac yn ein hamddiffyn rhag peryglon fel llifogydd. Mae ecosystemau iach hefyd yn gryfach i wrthsefyll bygythiadau fel effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae nodweddion gwydnwch ecosystem yn cynnwys amrywiaeth biolegol, daearegol a chorfforol, cysylltedd gydag a rhwng ecosystemau, a graddfa, maint a chyflwr ecosystemau.

Er ei bod yn bwysig cynnwys dangosydd sy'n cwmpasu iechyd ecosystemau ac ecosystemau sy'n gweithio'n dda nid oes dangosydd addas ar gael ar hyn o bryd. Gallai dangosydd ar gyfer y ganran o gynefinoedd lled-naturiol sydd mewn cyflwr da fod yn ddangosydd priodol, fel dirprwy ar gyfer ecosystemau iach sy'n gweithio'n dda. Fodd bynnag, gan nad oes data cadarn ar gyfer Cymru ar gael yn rhwydd y teimlad yw bod angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu dangosydd ar gyfer ecosystemau sy'n gweithio'n dda (ochr yn ochr â dangosydd ar gyfer bioamrywiaeth). Felly rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn â dangosyddion priodol ar gyfer ecosystemau sy'n gweithio'n dda. Ar hyn o bryd nid oes dangosydd addas, sydd â data ddigon cadarn. Fodd bynnag mae gwaith datblygu ar waith ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid arbenigol.

Cwestiwn 13 A oes gennych awgrym o ran sut i fesur iechyd ein hecosystemau? Oes/Nac oes
Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd.

33	Amgylchedd naturiol fioamrywiol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	I'w gytuno.							
Ffynhonnell	I'w ddatblygu; bydd hwn yn tynnu ar waith yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac yn cyfrannu ato.							
Rhesymeg	Mae dangosydd statws amrywiaeth fiolegol fel bioamrywiaeth yn tanategu gweithrediad ein hecosystemau a'r ystod o wasanaethau hanfodol maent yn eu darparu yn ogystal â chael ei gwerthfawrogi yn ei rhinwedd ei hun gan bobl. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud ar ddangosyddion bioamrywiaeth; fodd bynnag nid oes dangosydd lefel-uchel cadarn ar gyfer statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd. Felly mae angen gwneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid i ystyried y dangosydd gorau sydd ar gael ochr yn ochr â datblygu dangosydd ar gyfer gweithrediad ecosystemau iach.							
Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud ar fesur bioamrywiaeth; fodd bynnag nid oes dangosydd lefel-uchel cadarn ar gyfer statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd. Felly mae angen gwneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid i ystyried y dangosydd gorau sydd ar gael ochr yn ochr â datblygu dangosydd ar gyfer ecosystemau iach.								
Cwestiwn 14	Oes gennych chi awgrym am sut y dylid mesur amrywiaeth a helaethrwydd bioamrywiaeth ein hamgylchedd naturiol? Oes/Nac oes Os oes, cwblhewch y templed a ddarparwyd.							

34	Ansawdd y dŵr	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da ar y cyfan dan Gyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr.							
Ffynhonnell	Cyfoeth Naturiol Cymru.							
Rhesymeg	Mae'n bwysig cynnal a gwella ansawdd y dŵr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan ei fod yn cyfrannu at Gymru sy'n fwy cydnerth ac yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang, trwy gynnal ecosystemau iach yn ogystal â hybu twristiaeth. Roedd yn well gennym y mesur arfaethedig na dangosyddion penodol, megis ansawdd dŵr ymdrochi, dŵr yfed sy'n methu cyrraedd safonau ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr, gan ei fod yn darparu dangosydd lefel-uchel ar gyfer ansawdd y dŵr.							
Er bod dangosyddion penodol eraill, megis ansawdd dŵr ymdrochi neu ddŵr yfed sy'n methu cyrraedd safonau ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr ar gael, cynigiwyd y dangosydd cyfansawdd gan ei fod yn darparu dangosydd lefel-uchel ar gyfer ansawdd dŵr. Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi eich barn am y dangosydd arfaethedig.								
Cwestiwn 15	Ydych chi'n meddwl bod y dangosydd arfaethedig ar gyfer ansawdd y dŵr yn mesur manteision yr amgylchedd dŵr yn ddigonol?							

35	Ansawdd yr aer	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Y gyfran o'r marwolaethau y gellir eu priodoli i lygredd aer gronynnol anthropogenig (wedi'i greu gan ddyn).							
Ffynhonnell	Cyfoeth Naturiol Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru.							
Rhesymeg	<p>Un o effeithiau mwyaf sylweddol llygredd aer ar iechyd yw'r cynnydd mewn risg o farwolaeth sy'n gysylltiedig â chysylltiad hirdymor â llygredd aer gronynnol.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i fesur sy'n ymwneud â nifer y diwrnodau y mae lefelau llygredd aer yn gymedrol neu'n isel, sy'n canolbwyntio ar godiadau byrdymor mewn llygredd aer. Fodd bynnag, mae'n well gennym y mesur arfaethedig gan fod y risgiau sy'n gysylltiedig â chysylltiad hirdymor â llygredd aer gronynnol yn uwch na'r rhai sy'n gysylltiedig ag amrywiadau byrdymor mewn llygredd aer.</p>							

36	Ansawdd y pridd	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Carbon pridd a deunydd organig pridd.							
Ffynhonnell	Arolwg o Gefn Gwlad, Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir, y darpar Gynllun Datblygu Gwledig, rhaglenni monitro Glastir .							
Rhesymeg	<p>Mae gwarchod pridd yn galluogi cenedlaethau'r dyfodol i fod ag adnodd cydnerth y gallant ddibynnu arno. Mae priddoedd cadarn yn hidlo ac yn storio dŵr, gan warchod ansawdd y dŵr ar gyfer dŵr yfed a lleihau biliau dŵr. Ar ben hynny, mae pridd yn bwysig ar gyfer storio carbon, y mae angen ei warchod i'w atal rhag cael ei allyrru i'r atmosffer fel carbon deuocsid.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i ystod eang o ddangosyddion ar gyfer pridd, ond mae'n well gennym garbon pridd a deunydd organig pridd gan mai dyma'r mesur sy'n rhoi'r mwyaf o wybodaeth am wasanaethau ecosystem a chydnerthedd y pridd ei hun.</p>							

37	Gwastraff na chaiff ei ailgylchu	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Gwastraff gweddilliol a gaiff ei gynhyrchu, y pen.							
Ffynhonnell	WasteDataFlow ac Arolygon Gwastraff, Cyfoeth Naturiol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae lleihau swm y gwastraff yr ydym yn ei gynhyrchu a chynyddu swm y gwastraff yr ydym yn ei ailddedfnyddio neu'n ei ailgylchu'n rhoi arwydd pa mor effeithlon ydym fel cenedl wrth ddefnyddio adnoddau yn ein cartrefi a'n busnesau.</p> <p>Mae'n well gennym y mesur arfaethedig (sy'n cynnwys gwastraff aelwydydd a busnesau) na dangosyddion eraill ar gyfer gwastraff, megis swm y gwastraff a gynhyrchir neu'r gyfradd ailgylchu, gan ei fod yn cyfleu'r newid mewn gwastraff a gynhyrchir yn ôl ein poblogaeth gynyddol a chanlyniad yr holl weithgarwch rheoli gwastraff.</p>							

38	Ôl troed byd-eang	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Ôl troed ecolegol.							
Ffynhonnell	I'w ddatblygu.							
Rhesymeg	<p>Mae'r dangosydd arfaethedig yn rhoi arwydd o'r baich amgylcheddol yr ydym yn ei osod nid dim ond ar Gymru ond ar ein planed.</p> <p>Mae'n well gennym fesur sy'n seiliedig ar ôl troed na dangosyddion sy'n seiliedig ar gynhyrchu neu ddefnyddwyr terfynol, nad ydynt ond yn rhoi cyfrif am darddiadau'r effeithiau o fewn ffiniau'r DU neu genhedloedd unigol.</p>							

39	Dinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Pobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau rhyngwladol mewn gwledydd datblygol.							
Ffynhonnell	Cwestiynau newydd i gael eu datblygu a'u casglu trwy arolwg, o bosibl Arolwg Cenedlaethol Cymru.							
Rhesymeg	<p>Mae rhan o fod yn wlad gyfrifol ar lefel fyd-eang yn cynnwys yr hyn sydd gan bobl Cymru i'w gynnig i weddill y byd, yn enwedig y rhai mewn gwledydd datblygol.</p> <p>Er bod gwybodaeth ar gael ynghylch pobl sy'n gweithio ar brosiectau penodol mewn gwledydd tramor, cynigir mesur newydd gan fod problemau gyda chwmpas a chadernid yr wybodaeth honno.</p>							
Mae rhan o fod yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang hefyd yn cynnwys yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i'r byd. Felly cynigir dangosydd sy'n ystyried pobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau rhyngwladol mewn gwledydd datblygol.								
Cwestiwn 16	Pa fathau o weithgareddau rhyngwladol neu fathau o ymgysylltu ddylai gael eu cynnwys yn y dangosydd hwn?							

40	Cyfrifoldebau rhyngwladol	1	2	3	4	5	6	7
Wedi'i fesur yn ôl	Dim mesuriad penodol – Mae'n well gennym ddull naratif.							
Ffynhonnell	Nifer o Ffynonellau.							
Rhesymeg	<p>Fel gwlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, mae gan Gymru rôl o ran cyflawni ystod o rwymedigaethau rhyngwladol.</p> <p>Er na chynigir mesur penodol ar gyfer y dangosydd hwn, bwriedir cynnwys naratif ynghylch sut y mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol o fewn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol.</p>							
Mae gan Gymru rôl o ran cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol. Ni chynigir unrhyw fesur penodol ar gyfer y dangosydd hwn; yn hytrach, y cynnig yw y bydd naratif ansoddol yn cael ei ddarparu ynghylch y modd y mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol.								
Cwestiwn 17	Beth yw eich barn ynghlŷn â'r cynnig i ddarparu esboniad naratif ar y modd y mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol yn lle mesuriad penodol?							

3.1 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Wrth ddatblygu'r set gychwynnol hon o ddangosyddion rydym wedi gorfod gwneud rhai dewisiadau anodd o ran beth yw'r dangosyddion allweddol i fesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau. Ceir meysydd eraill a allai ddod i'r meddwl wrth ystyried y nodau hyn ac rydym wedi peidio â chynnwys rhai o'r rhain am resymau cysyniadol neu ymarferol. I oleuo eich ystyriaeth ynghylch dangosyddion eraill, rydym yn cyflwyno isod rai o'r meysydd y gwnaethom beidio â'u cynnwys:

Llesiant goddrychol

Rhodddwyd ystyriaeth i'r dangosyddion a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i fesur llesiant goddrychol. Fodd bynnag, gwrthodwyd y rhain gan fod y set arfaethedig o ddangosyddion yn cynnwys sawl agwedd ar lesiant goddrychol gan gynnwys llesiant meddyliol, unigrwydd, teimladau o ddiogelwch a theimladau o berthyn i'r gymuned.

Cymunedau hygrych

Un o'r dangosyddion pwysig ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor cymunedau yw a yw pobl sy'n byw ynddynt yn gallu cael at wasanaethau ac amwynderau allweddol. Rhodddwyd ystyriaeth i fesur arall gan ddefnyddio gwybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a oedd yn mesur amseroedd teithio cyfartalog at wasanaethau amrywiol. Gwrthodwyd hwn gan fod y fethodoleg yn debygol o newid yn y dyfodol, gan ei gwneud yn anodd diweddarau'r wybodaeth yn flynyddol a'i chymharu dros amser. Gan fod newidiadau cymdeithasol yn effeithio ar y gwasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio a ble a sut y maent yn cael at y gwasanaethau hynny, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried nifer sefydlog o wasanaethau ac nid yw'n ystyried mynediad digidol ar hyn o bryd.

Argaeledd adnoddau dŵr

Rhodddwyd ystyriaeth i ddangosyddion amrywiol mewn perthynas â chynnal adnoddau dŵr digonol, gan gynnwys y ganran o barthau adnoddau dŵr sy'n ateb y gofynion o ran targedau ychwanegol wrth gefn. Fodd bynnag, cafodd y dangosydd hwn ei ddiystyru am ei fod yn ymwneud â rheoli cyflenwadau dŵr

cyhoeddus gan gwmnïau dŵr yn unig ac am nad yw'n ystyried faint o ddŵr sydd ar gael i 'bobl, busnesau a'r amgylchedd'. Mae dangosydd arall ar gyfer newidiadau i lif afonydd ac argaeledd dŵr wedi cael ei ddatblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru; fodd bynnag, mae angen mwy o wybodaeth i gadarnhau a fyddai hwn yn ddangosydd addas

Ansawdd yr aer

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i ddangosydd arall sy'n ystyried nifer y diwrnodau yn y flwyddyn ddiwethaf lle'r oedd lefelau llygredd aer yn gymedrol neu'n is. Fodd bynnag, cafodd ei ddiystyru gan mai'r mynegai ansawdd aer yw'r ffynhonnell data ar gyfer y dangosydd hwn, a phrif amcan y mynegai hwnnw yw atal effeithiau anffafriol ar iechyd o ganlyniad i godiadau byrdymor mewn llygredd aer. Er y gall cysylltiad byrdymor â lefelau uchel o lygryddion aer amrywiol achosi ystod o effeithiau anffafriol, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chysylltiad hirdymor â llygredd aer gronynnol yn uwch.

Ystyriwyd hefyd ddangosydd sy'n ymwneud ag effaith llygredd aer ar bridd a chynefinoedd, o ran ardaloedd cynefinoedd sensitif yng Nghymru ble mae gormodedd o lwythi critigol ar gyfer nitrogen maethol ac asidedd. Fodd bynnag, gellid mesur yr effaith hwn yn y dangosyddion bioamrywiaeth ac iechyd ecosystemau arfaethedig ac ystyriwyd y risg hirdymor i bobl yn fwy pwysig i gynnwys.

Ynni adnewyddadwy

Rhodddwyd ystyriaeth i ddangosydd posibl ar gyfer ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'r cysyniad sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil wedi'i gynnwys, fel ffactor sy'n cyfrannu at allyriadau ar y cyfan. Felly cafodd y dangosydd hwn ei ddiystyru o blaid dangosydd lefel-uchel ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Seilwaith

Er bod seilwaith effeithlon ac effeithiol yn hanfodol i sicrhau'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol sy'n dylanwadu ar lesiant pobl, nid yw seilwaith yn do'i hun yn ganlyniad. Yn y cyswllt hwn, mae cwestiwn gwirioneddol yn codi wrth ystyried a fyddai cynnwys dangosydd

yn gyson â'r rhesymeg sylfaenol ar gyfer y dangosyddion.

Ar ben hynny, cynigir datblygu dangosydd ar gyfer "cymunedau cysylltiedig" a fydd yn adlewyrchu un o ganlyniadau pwysig seilwaith, ac sydd felly'n ateb, yn rhannol o leiaf, ddiben dangosydd yn y maes hwn.

Hyd yn oed pe bai'n ddymunol cynnwys dangosydd gwrthrychol ar gyfer perfformiad seilwaith, mae natur hynod amrywiol seilwaith (sy'n cwmpasu ffyrdd, rheilffyrdd, telathrebu a seilwaith cymdeithasol) yn her sylfaenol. O ganlyniad nid oes dangosydd cryno sy'n crynhoi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol seilwaith. Mae'n anodd gweld sut y gellid goresgyn yr her hon, hyd yn oed mewn egwyddor. Gallai fod yn bosibl (er y byddai'n fypwyl ac yn anghyflawn) cynnwys dangosydd ar gyfer un agwedd yn unig ar seilwaith. Ond hyd yn oed pe dymunid gwneud hynny, ychydig o ddangosyddion posibl amlwg sydd. Er enghraifft, cludiant ffyrdd yw'r math o gludiant a ddefnyddir fwyaf. Mae ffigyrau ar gael ar gyfer tagfeydd ar lwybrau penodol ond nid oes un dull y cytunwyd arno ar gyfer crynhoi'r ffigyrau hyn er mwyn cael dangosydd cenedlaethol. Am yr holl resymau hyn, er bod mesur o dagfeydd traffig wedi cael ei ystyried, penderfynwyd wedyn na fyddai modd cyfiawnhau ei gynnwys.

Entrepreneuriaeth

Nodwyd fod menter yn cael ei hystyried yn ysgogydd ar gyfer cynhyrchiant a thwf yn y tymor hir, ac y gallai adlewyrchu'r gallu i addasu

4. Beth yw'r camau nesaf?

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yw **11 Ionawr 2016**.

Byddwn yn annog pobl i ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y dangosyddion ac yn rhedeg pedwar digwyddiad ymgynghori ledled Cymru i ymgysylltu ymhellach â chyrrff cyhoeddus ynghylch y dangosyddion cenedlaethol arfaethedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn ar wefan Y Gymru a Garem:

www.thewaleswewant.co.uk/cy/ymgyngori-ar-arweiniad-22-23-28-hydref-4-tachwedd

i newid. Felly gallai gyfrannu at y canlyniadau economaidd sy'n dylanwadu ar lesiant pobl. Fodd bynnag, nid yw entrepreneuriaeth yn ganlyniad yn ei rhinwedd ei hun.

Hefyd, nid yw'r mesurau sydd ar gael ar gyfer hunangyflogaeth yn cynnwys yr agweddau ar entrepreneuriaeth sy'n ysgogi twf. Dangosydd gwell o bosibl fyddai mesur o fusnesau newydd (a hwnnw naill ai'n ffigwr gros neu'n ffigwr net ar ôl didynnu'r rhai sydd wedi dod i ben), ond mae tystiolaeth yn awgrymu mai ansawdd y busnesau newydd, yn hytrach na'u nifer, sydd o bwys, ac nid oes mesur ar gael yn y maes hwn. Hefyd, caiff newidiadau yn y gyfradd dechrau busnesau eu hysgogi'n bennaf gan ffactorau economaidd byrdymor sy'n gysylltiedig â pherfformiad economi ehangach y DU.

Mae ymchwil ddiweddar hefyd yn awgrymu bod ansicrwydd ynghylch cyfeiriad achosiaeth – mae cyfraddau dechrau busnesau yn tueddu i gael eu hysgogi gan incwm gwario uchel, yn hytrach nag arwain yn anorfod at ganlyniadau gwell.

Defnydd moesegol

Rhoddwyd ystyriaeth i ddangosydd ar gyfer defnydd moesegol, yn enwedig sut y gallai hyn ein helpu i ddeall a yw Cymru'n dod yn wlad sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang. Cafodd ei ddiystyru ar y cam hwn oherwydd anawsterau o ran diffinio'r cynnyrch a'r gwasanaethau hynny y gellid eu cynnwys, a sut y byddai'r data'n cael ei gasglu ar lefel Cymru gyfan.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori bydd y rhestr derfynol o ddangosyddion yn cael ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a bydd crynodeb o ymatebion yn cael ei gyhoeddi.

Wedi hyn bydd data sylfaenol yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016, a'r adroddiad llesiant blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Ddeddf.

5. Gwaith arall cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch datblygu canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus ar y Ddeddf.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar y wefan www.llyw.cymru.

Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru:

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd, dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i baratoi cynllun sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau (h.y. ym mhopeth a wnânt). Ers 2010 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, a gellir gweld yr adroddiad diweddaraf yma: www.gov.wales/docs/statistics/2015/150625-sustainable-development-indicators-2015-en.pdf

Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn disodli'r dangosyddion datblygu cynaliadwy o 2016.

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cysylltiadau agos â'r Cenedloedd Unedig yn ystod y broses o ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) i sicrhau, hyd y gellir, ei bod yn gyson â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig. Ym mis Medi 2015, mabwysiodd 193 o wledydd agenda datblygu cynaliadwy newydd, 'Transforming our World: the 2030 Agenda for Sustainable Development', a chytundeb bydeang newydd ar y newid yn yr hinsawdd. Mae dau ar bymtheg o Nodau Datblygu Cynaliadwy newydd wedi cael eu cytuno a'r rheini'n adeiladu ar yr wyth nod yn Nodau Datblygu'r Mileniwm. Ceir rhagor o wybodaeth am Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig yma www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/

Mesurau Cenedlaethol o Lesiant a'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy:

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gyfrifol am gyhoeddi mesuriadau o lesiant ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ogystal â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Lloegr/Y DU. Mae cynrychiolwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r set arfaethedig o Ddangosyddion Cenedlaethol. www.ons.gov.uk/ons/guide-method/user-guidance/well-being/index.html

Atodiad A – Tabled ar gyfer Dangosyddion

Defnyddiwch y tabled hwn os ydych yn dymuno diwygio dangosydd arfaethedig, neu os ydych yn dymuno cynnig dangosydd newydd.

A yw'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd newydd ynteu'n welliant i ddangosydd presennol: Ticiwch un blwch:

Newydd

Gwelliant

Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn ei wella neu'n ei ddisodli?

Beth yw enw'r dangosydd newydd?

Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y dangosydd hwn?

Eglurwch pam mai'r dangosydd hwn yw'r un gorau ar gyfer mesur llesiant pobl yng Nghymru yn unol â'r meini prawf yn Adran 2.

Nodwch pa nodau y mae'r dangosydd arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt: (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cymru lewyrchus

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru gydnerth

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru sy'n fwy cyfartal